Dathlu Cymru Wledig
Celebrating Rural Wales

Rhwydwaith Gwledig Cymru
Wales Rural Network



# Morlais – Ynni Morol Môn

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

## HARNEISIO PŴER NATUR

Mae Ynys Môn, sydd â dros 220 milltir sgwâr o dirweddau naturiol heb eu difetha, yn hafan i fywyd gwyllt. Gyda digonedd o drychfilod, adar môr sy'n nythu, blodau gwyllt a llawer o rywogaethau eraill, mae gan yr ynys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

Ac eto, mae rhinweddau rhagorol Ynys Môn yn ymestyn ymhell y tu hwnt i dir sych. Mae gan yr ynys hefyd adnodd naturiol gwych ar ei harfordir - mae ganddi un o'r adnoddau llanw cryfaf yn Ewrop.

Mae Menter Môn, menter gymdeithasol a Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl), sy'n darparu rhaglen datblygu gwledig LEADER ar Ynys Môn, wastad wedi ymdrechu i ychwanegu gwerth at adnoddau'r rhanbarth, boed yn iaith, treftadaeth neu gynnyrch amaethyddol.

Trwy LEADER, mae Menter Môn yn gwahodd ac yn annog pobl, busnesau a chymunedau lleol i gynnig syniadau arloesol ac atebion cynaliadwy i fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu eu cymunedau gwledig.

Yn 2011, cydnabu Menter Môn botensial enfawr harneisio'r ehangder dŵr oddi ar arfordir yr ynys a, thrwy ddefnyddio dull LEADER, dechreuodd archwilio cyfleoedd ar gyfer ynni'r llanw. Yn ystod y cyfnod hwn, sefydlodd Menter Môn hefyd berthnasoedd pwysig gydag unigolion allweddol, ynghyd â dealltwriaeth o'r sector, gan greu sylfaen gref i'r prosiect.

Gyda phrofiad helaeth Menter Môn o gyflwyno LEADER yn y rhanbarth, ynghyd â gwell dealltwriaeth o ynni'r llanw, roedd y cysyniad o ychwanegu gwerth at y llanw yn magu momentwm. Byddai'r prosiect uchelgeisiol yn dod â busnes a swyddi i gymunedau gwledig yr ynys, tra'n darparu'r capasiti posibl i bweru dros 180,000 o gartrefi ag ynni llanw glân.

## MANTEISION Y CYLLID

Mae'r prosiect ynni llanw wedi cymryd degawd o waith cynllunio ac ymgynghori, gan bontio dwy rownd ddiwethaf y Rhaglen Datblygu Gwledig.

O dan y thema Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, bu cyllid LEADER yn allweddol yng nghamau cychwynnol y prosiect ac fe'i defnyddiwyd i gefnogi cais i Ystadau'r Goron ar gyfer Parth Arddangos Gorllewin Ynys Môn yn 2013. Yn dilyn llwyddiant y cais, cafodd cyllid LEADER hefyd ei ddefnyddio i gynnal astudiaethau cychwynnol i fesur y cyfleoedd. Derbyniodd y prosiect gyfanswm o tua £100,000 o gymorth LEADER.

Erbyn 2016, roedd y prosiect yn cael ei adnabod fel 'Morlais' a chafodd gymeradwyaeth Ystâd y Goron i symud y parth ymhellach i'r gogledd, gan ddenu diddordeb gan ddatblygwyr. Dechreuwyd ar y gwaith o ymgynghori ar yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ag ymgyngoreion statudol a sefydliadau pysgota cynrychioliadol.

Cytunwyd ar leoliad yr is-orsaf yn 2017, a gwnaed cais i Lywodraeth Cymru am gapasiti o 240MW, a chyflwynwyd cwmpas Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn 2018 i ddilyn.






Cynhaliwyd digwyddiadau gwybodaeth gyhoeddus ym mis Mawrth a mis Mehefin, 2019, ac ym mis Medi y flwyddyn honno, cyflwynwyd cais caniatâd i Lywodraeth Cymru (Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd), yn ogystal â Chais am Drwydded Forol i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ym mis Mawrth 2020, cyflwynwyd Gwybodaeth Amgylcheddol Bellach a chynhaliwyd ymgynghoriad pellach â Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf.

Derbyniodd parth Morlais ganiatâd cynllunio llawn yn 2022, ac mae datblygwyr o bob rhan o'r byd wedi ymrwymo i ddefnyddio eu technoleg yn y parth. Prosiect Morlais yw'r prosiect ynni cymunedol mwyaf yn y byd ac mae'n brosiect o arwyddocâd byd-eang i'r diwydiant ynni llanw.




## MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

Yn 2022, derbyniodd prosiect Morlais £31 miliwn o gymorth gan Lywodraeth Cymru / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), a fydd yn galluogi'r gwaith o adeiladu'r seilwaith i gael ei gwblhau erbyn diwedd 2023. Mae'r dull LEADER cychwynnol wedi sicrhau y bydd cymunedau lleol a busnesau'n elwa o'r prosiect ac o'r herwydd, mae cytundeb gwerth £28 miliwn wedi'i ddyfarnu i gwmni Cymreig lleol, Jones Bros Civil Engineering, i wneud y gwaith adeiladu.

"Mae Morlais yn ddyledus iawn i LEADER. Mae'r rhaglen wastad wedi darparu hyblygrwydd i archwilio a chwestiynu, sydd wedi bod yn sylfaenol i ddechreuad y prosiect.

"Heb y weledigaeth a rennir a chefnogaeth barhaus ein partneriaid, breuddwyd gwrach fyddai Morlais. Rydym ni'n ffodus iawn i gael partneriaeth mor ymroddedig, sy'n defnyddio arbenigedd, cyngor ac arweiniad i ddod yn nes o lawer at ynni gwyrddach, glanach sy'n cael ei gynhyrchu ar garreg ein drws.

"Ac eto, mae gennym ni gaffaeliad enfawr arall yma – ein pobl ifanc leol. Mae nifer cynyddol o bobl ifanc yn gadael eu cymunedau gwledig i chwilio am waith o well safon mewn trefi a dinasoedd mawr, felly bydd y prosiect nid yn unig yn cynnig swyddi hirdymor o safon ar yr ynys a rhanbarth gogledd Cymru yn ehangach, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi.

"Mae'n bwysig amddiffyn ein heconomi leol ac mae angen i ni i gyd chwarae ein rhan wrth weithio tuag at sero net. Bydd Morlais yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â newid hinsawdd a chreu cyfleoedd am swyddi o safon. Bydd yr hyn y gallwn ei wneud ar gyfer ein cymunedau gwledig a'r amgylchedd heddiw yn cael effaith gadarnhaol ar genedlaethau'r dyfodol."

Dafydd Gruffydd, rheolwr gyfarwyddwr Menter Môn